TGAU

TGAU CBAC

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

## CANLLAWIAU ATHRAWON

Addysgu o 2015



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## CYFLWYNIAD

Mae'r cymhwyster CBAC TGAU Llenyddiaeth Gymraeg sydd wedi ei achredu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dechrau addysgu o fis Medi 2015 ar gael i:

- holl ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Manyleb unedol yw TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Bydd y dyfarniad llawn cyntaf yn haf 2017. Mae modd sefyll Uned 1 yn Ionawr 2017 a phob Ionawr a haf yn dilyn hynny tra bod Unedau 2,3 a 4 ar gael yn haf 2017 a phob haf yn dilyn hynny. Cynllunir yr unedau asesu 1, 2 a 3 ar ddwy haen sef haen uwch A* – D a haen sylfaenol C – G. Bydd uned 4 – asesiad diarholiad ar gyfer yr ystod gallu llawn a bydd yn ddi-haen.

Y pedair uned asesu yw:

Uned 1: Barddoniaeth (asesiad ysgrifenedig allanol)

Uned 2: Nofel (asesiad ysgrifenedig allanol)

Uned 3: Llunyddiaeth (asesiad llafar allanol)

Uned 4: Asesiad Diarholiad

Dylai ymgeiswyr sy'n dilyn manyleb TGAU Llenyddiaeth Gymraeg gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan ddatblygu diddordeb a brwdfrydedd at lenyddiaeth ynghyd â meithrin diddordeb a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'u paratoi i gyfrannu at gymdeithas ddwyieithog.Disgwylir i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth o destunau a ffurfiau llenyddol, profi gwahanol gyfnodau, diwylliannau, safbwyntiau a sefyllfaoedd fel y'u ceir o fewn testunau llenyddol.

Mae astudio TGAU Llenyddiaeth Gymraeg ynghyd â TGAU Cymraeg Iaith yn sail gadarn i'r ymgeiswyr hynny sydd yn dymuno parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg trwy ddilyn cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

Amlinellir y gofynion llawn yn y fanyleb a gellir dod o hyd iddi ar wefan CBAC.

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, ceir cefnogaeth drwy'r canlynol:

- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Achlysuron wyneb yn wyneb DPP
- Adroddiadau Arholwyr ar bob uned
- Mynediad am ddim i gyn bapurau arholiad a chynlluniau marcio ar y wefan ddiogel
- Cyswllt uniongyrchol â'r Swyddog Pwnc
- Adnoddau am ddim ar-lein
- Dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau
- Adolygiad Arholiad Ar-lein

## NODAU CANLLAWIAU ATHRAWON

Prif nod Canllawiau Athrawon yw cynnig cefnogaeth i athrawon wrth gyflwyno manyleb ddiwygiedig CBAC TGAU Llenyddiaeth Gymraeg ynghyd â chanllawiau i ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

Ni fwriadwyd y ddogfen hon i'w defnyddio fel canllaw cyflawn, ond yn hytrach yn gefnogaeth i athrawon proffesiynol i ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous wedi eu teilwra i anghenion a sgiliau eu myfyrwyr yn y sefydliadau y maen nhw'n gweithio ynddynt.

Mae'r canllawiau yn cynnig cymorth i athrawon ynglŷn â gweithgareddau dosbarth posibl ynghyd â chysylltiadau i adnoddau digidol (rhai CBAC sydd ar gael am ddim a ffynonellau allanol.)

Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar feysydd newydd i Fanylebau pwnc CBAC a'r meysydd hynny lle mae'r galw mwyaf am ganllawiau.

## UNED 1

## BARDDONIAETH

### Cyflwyniad

Y papur barddoniaeth yw'r uned gyntaf o bedair yn yr arholiad Llenyddiaeth Gymraeg. Bydd cyfle i ymgeiswyr sefyll y papur hwn ym mis Ionawr ac yn ystod yr haf. Bydd dwy gerdd yn ymddangos ar y papur. Nid oes disgwyl i'r ymgeiswyr felly ddysgu'r cerddi air am air. Bydd yr ymgeiswyr wedi cael cyfle i astudio un ohonynt yn fanwl (t.7 MANYLEB LLENYDDIAETH GYMRAEG). Gall y llall ddod **o'r gyfrol Fesul Gair (Gwasg Gomer), neu'n gerdd a gyhoeddwyd mewn cyhoeddiad arall, neu'n gerdd anghyhoeddiedig**.

Yn y fanyleb, crynhoir disgwyliadau'r papur fel a ganlyn:

Bydd disgwyl i ymgeiswyr:

- ymateb yn sensitif a manwl i gerddi er mwyn gwerthfawrogi eu cynnwys a'u neges/thema
- adnabod a gwerthfawrogi mesurau ac arddull y cerddi
- cyflwyno ymateb personol i'r cerddi

Wrth astudio'r cerddi gosod (10 ar yr haen uwch, 6 ar yr haen sylfaenol), dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion gymharu'r cerddi hyn â cherddi eraill, ac yn hytrach na chyflwyno nodiadau manwl, ffurfiol ar bob cerdd, y ddelfryd fyddai bod y disgyblion yn chwilio am y nodweddion eu hunain o fewn y cerddi, a dysgu cymharu'n gyson.

Yn yr arholiad, dylid ceisio osgoi bod yr ymgeiswyr yn trafod y gerdd osod yn llawer dyfnach na'r gerdd sydd heb ei gweld.

Nod yr arholiad barddoniaeth yw magu disgyblion sy'n gallu ymateb i farddoniaeth, yn deall neges cerddi, yn gwerthfawrogi crefft y bardd ac yn gallu cymharu rhinweddau cerddi.

## Dyma'r cwestiwn sydd ar y papur enghreifftiol (HAEN UWCH):

Darllenwch y ddwy gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r bardd yn rhoi darlun o le hyfryd.

Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges y cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi

  (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Mae posib i union eiriad y cwestiwn newid, o flwyddyn i flwyddyn, ond bydd yr hyn y chwilir amdano yn aros yr un peth sef, trafod cynnwys/neges, sut mae'r bardd yn cyfleu hyn, ymateb personol.

Nid oes angen rhannu'r ateb yn dair rhan i gyfateb i'r pwyntiau hyn. Yn hytrach croesewir cyfuno'r rhain a'u trafod yn naturiol gyda'i gilydd.

Wrth drafod y ddwy gerdd, anogir yr ymgeiswyr i ymdrin â'r ddwy gyda'i gilydd, a'u cymharu'n gyson a naturiol o fewn yr ateb.

## Dyma'r cwestiwn sydd ar y papur enghreifftiol (HAEN SYLFAENOL):

Darllenwch y ddwy gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o ddinas i ni.

Ysgrifennwch am y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- Ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft
- Pa fath o ddarlun o ddinas mae'r ddau fardd yn ei roi ni?
- Beth mae'r cerddi'n ei ddweud amdanom ni fel pobl?
- Ydy bywyd y ddinas wedi newid o gwbl dros y blynyddoedd?
- Edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- Nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn. Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Fel y gwelir, mae mwy o strwythur a chymorth yn cael ei gynnig i ymgeiswyr haen sylfaenol. Gall y disgyblion hyn fod yn dilyn y drefn sydd yn pwyntiau bwled yn eu hatebion os dymunir, ond yma hefyd, y nod yw eu bod yn cymharu'r cerddi gymaint ag y gellir.

Does dim angen i ymgeiswyr boeni os nad ydyn nhw wedi 'deall' pob rhan o unrhyw gerdd, yn arbennig y gerdd fydd heb ei gweld. Yn aml, mae dehongliad pobl o gerddi yn amrywio, a gall ymgeisydd weld rhywbeth mewn cerdd na fyddai'r arholwr, athro neu hyd yn oed y bardd ei hun wedi'i weld. Yr unig beth y mae'n rhaid ei sicrhau yw bod yr ymgeisydd yn cyfiawnhau ei ddehongliad. Cofier nad yw'r cerddi hyn wedi eu rhannu i unrhyw thema arbennig.

Ar gyfer yr haen sylfaenol yn arbennig, mae'n bosib y bydd rhai geiriau sydd yn y gerdd sydd heb ei gweld ymlaen llaw yn cael eu hegluro. Os bydd geiriau y tybir eu bod yn anghyfarwydd, bydd 'geirfa' yn cael ei roi ar waelod y dudalen, e.e. gweler y gerdd 'Cyrraedd y Copa' yn yr ateb enghreifftiol yn nes ymlaen.

**Band Marciau 31- 40**

Yr hyn sy'n taro'r darllenydd yn syth yn y cerddi hyn yw bod y ddwy gerdd yn ddibynnol iawn ar y synnwyr gweld. Mae'r ddau ar ddechrau'r gerdd yn nodi eu bod wedi gweld person arbennig. 'Dwi'n cofio dy weld di…' meddai Catrin Dafydd, tra bod Rhys Iorwerth yn nodi 'yn ddifaddau o feddwol/fe'i gwelais.' Yr hyn sy'n gwneud y cerddi hyn yn arbennig yw ymateb y beirdd i'r 'gweld' cychwynnol hwn. Roedd 'degau o bobl' o amgylch gwrthrych serch Catrin Dafydd, gan ei gwneud yn anodd ei gyrraedd. Nid yw'n hawdd i Rhys Iorwerth gyrraedd gwrthrych ei serch chwaith. Cawn yr ymdeimlad fod yna bellter y fan hon yn ogystal. Dim ond un stôl mae'n estyn amdani; dim ond un peint y mae'n ei ordro. Tybed a ydyw'n rhagweld y bydd y ferch yn amhosib iddo ei chyrraedd?

Cawn ddarlun clir o'r cymeriad yng ngherdd Catrin Dafydd trwy gyfrwng y gyffelybiaeth 'fel cacwn am bot jam.' Mae'r 'pot jam' yn amlwg yn ddeniadol i'r cacwn, ac mae rhywbeth anniffiniol sy'n denu'r bardd at y cymeriad hwn. Mae trosiad yng ngherdd Rhys Iorwerth sydd hefyd yn creu darlun cadarhaol o'r ferch. Clywn fod yna 'genfor o stori' yn ei llygaid. Dengys hyn ddyfnder yn ei chymeriad, ac fel y bardd, mae'r darllenydd hefyd felly yn chwilfrydig i ddysgu mwy amdani.

Yn wahanol i Catrin Dafydd, sy'n gweld 'degau o bobl' o amgylch y person arbennig hwn, nid yw Rhys Iorwerth yn cyfeirio at unrhyw un arall yn ei gerdd yntau. Dim ond y ferch a wêl y bardd hwn. Dim ond y ferch sy'n bwysig iddo. Cawn yr argraff fod Rhys Iorwerth wedi dod yn agosach yn ei gerdd yntau gan ei fod yn cyfeirio at 'ein dawns ni ein dau'. Gall fod y ddawns hon yn ddawns ddychmygol, ond mae'r rhagenw lluosog 'ein' yn arwyddocaol. Yma, cawn awgrym fod y ddau wedi dod at ei gilydd. Yn y gerdd 'Dwi'n Cofio Dy Weld Di' gan Catrin Dafydd, dim ond y rhagenwau unigol 'di' a 'fi' a glywn. A yw hyn yn awgrymu nad ydyn nhw wir wedi dod at ei gilydd?

Cerdd gaeth yw 'Y Ferch wrth y bar yng Nghlwb Ifor' ar ffurf englyn milwr. Ffurf gryno yw hon, ac mae'n adlewyrchu prinder geiriau'r bardd wrth iddo chwilio am ffordd i ddenu'r ferch. Mae'r llinellau byrion yn adlewyrchu'i swildod, ond wrth i'r bardd godi hyder, mae'r penillion yn goferu ac yn llifo i'w gilydd gan greu ymdeimlad o frwdfrydedd a gobaith, 'a hyder a direidi / yn eu llawnder...'. Mae'r gynghanedd groes o gyswllt 'yn sŵn ein dawns ni ein dau' yn adlewyrchu symudiad a rhythm y ddawns, ac yn awgrymu fod yna gyswllt yn dechrau tyfu rhwng y ddau.

Ar y llaw arall, cerdd rydd yw cerdd Catrin Dafydd. Gellir gweld eironi yma gan fod yna ymdeimlad fod y ferch yn gaeth i'w sefyllfa. Ceir hiwmor yn y gwaith wrth i'r ferch nodi ei bod yn llythrennol gaeth yn 'y lloriau

gludiog’. Cawn ymdeimlad fod y ferch yn teimlo fod ei bywyd wedi dechrau dadfeilio tua’r diwedd gyda’r ‘newydd na ddoi di yn d’ôl’, a’r lleihad yn nifer sillafau’r llinellau olaf yn adlewyrchu’r diffyg gobaith.

Un tebygrwydd hynod sydd rhwng y ddwy gerdd yw presenoldeb y mwg sydd fel rhyw fath o len rhwng y ddau berson yn y cerddi. ‘Blas y mwg’ a gawn yng ngherdd Catrin Dafydd, tra clywn fod Rhys Iorwerth wedi gwylio’r ferch ‘trwy’r mwg sigâr'. Gwrthrych diflas yw mwg, ond er gwaetha’r diflastod hwn, yn y ddwy gerdd, mae’r bardd yn llwyddo i weld gwrthrych ei serch. Nid yw’r rhwystr hwn yn llwyddo i greu ffin rhwng y ddau, ac mae’r bardd yn y ddwy gerdd yn brwydro drwy’r mwg yn drosiadol i gyrraedd calon gwrthrych ei serch.

Darlun o berthynas a gawn yn y ddwy gerdd, ond dwy berthynas wahanol iawn i’w gilydd. Perthynas sydd ar fin dechrau yw’r berthynas yng ngherdd Rhys Iorwerth. Ni chawn wybod a oedd yna barhad i’r berthynas, ond cawn yr argraff ei bod hi’n meddwl llawer iddo gan fod hyn wedi digwydd ‘aeafau’n ôl’, a’i fod yn dal i gofio amdani. Mae’r prif ddigwyddiad yng ngherdd Catrin Dafydd hefyd wedi digwydd ‘flynyddoedd ynghynt’, ond cawn yr argraff fod y berthynas wedi datblygu drwy gyfrwng y llinell: ‘ daeth y newydd na ddoi di yn d’ôl.’ Cawn gyferbyniad rhwng gobaith y ‘flynyddoedd ynghynt’ a thristwch ‘ben bore heddiw.’

Gwelwn gyferbyniad hefyd gan Rhys Iorwerth yn y ffaith ei fod yn rhoi’r argraff ei fod ychydig yn betrus wrth weld y ferch. Beth a wna wedi’i gweld? Yn lle mynd ati, mae’n estyn stôl. Yn lle ceisio siarad â hi, mae’n ordro peint. Cyferbynna hyn gyda’r ‘hyder' a wêl yn ei ‘llygaid tanbaid hi’.

Yr hyn sy’n drawiadol yn y ddwy gerdd yw bod y ddwy’n gorffen yn amwys. Ni ddown i wybod beth mae Catrin Dafydd yn difaru peidio’i wneud. Ni ddown i wybod chwaith pam na ddaw’r person yn ei ôl. Mae’n gerdd sy’n codi cwestiynau, yn union fel ‘Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor’. Y cwestiwn a godir yma yw a yw’r ddawns wedi digwydd go iawn, neu ai ffrwyth dychymyg y bardd ydyw. Ai dyhead y bardd yn unig yw’r ddawns hon neu a yw’n llwyddo i gyrraedd y ‘swyn’ y mae’n dyheu amdano?

**Barn Arholwr:**

*Mae aeddfedrwydd y darn hwn yn ei godi i dir uchel yn syth. Mae’n defnyddio dyfyniadau’n bwrpasol i brofi pwyntiau. Cawn gan yr ymgeisydd hwn ymdriniaeth aeddfed o gynnwys ac arddull y ddwy gerdd, ac mae’r cymharu’n digwydd yn gyson a naturiol o fewn y gwaith. Gwêl yr ymgeisydd hwn debygrwydd a gwahaniaethau rhwng y ddwy gerdd. Mae cyfeiriadau pwrpasol at y mesur yma, a gweld sut mae’r dewis o fesur yn addas ar gyfer y gerdd. Wrth drafod yr arddull, mae’n cyfeirio’n dreiddgar at effeithiolrwydd y nodweddion. Mae yma ymateb personol deallus i’r cerddi, a dehongli manwl.*

Cymharu ‘Dwi’n Cofio Dy Weld Di’ Catrin Dafydd (Fesul Gair t. 14) a ‘Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor’ Rhys Iorwerth (Fesul Gair t. 92)

**Band Marciau 11 - 20**

Mae’r gerdd ‘Y Ferch wrth y Bar’ yn sôn am fachgen yn cerdded i mewn i far ac yn gweld merch. Mae’n dweud ‘ordrais beint ar draws y bar’ ac wedyn mae’n edrych ar y ferch. Mae llawer o fwg yna. Dydyn ni ddim yn siŵr a ydy’r ferch a’r bachgen yn dawnsio go iawn. Dydyn ni ddim yn siŵr chwaith a ydyn nhw’n siarad efo’i gilydd.

Mae’n defnyddio llawer o ansoddeiriau yn yr englyn cyntaf, ‘yn ‘ddifaddau o feddwol’. Dydyn ni ddim yn siŵr iawn pan nad ydy o’n gallu maddau iddo fo’i hun.

Dydy Catrin Dafydd chwaith ddim yn dweud a ydyn nhw’n siarad efo’i gilydd. Mae hi’n dweud ei bod hi’n cofio gweld rhywun yn y gornel. Dydy Catrin Dafydd ddim yn dweud enw’r person. Dydyn ni ddim yn siŵr ai cariad neu ffrind sydd yna.

Nid oes llawer o ansoddeiriau yng ngherdd Catrin Dafydd, ond mae yna un wrth iddi ddweud fod blas y mwg yn ‘dew’. Mae hyn yn meddwl fod y lle yn ddiflas, ac efallai mai’r cariad neu’r ffrind ydy’r un peth sy’n gwneud y lle’n llai diflas i’r bardd.

Rydw i’n hoffi’r gyffelybiaeth ‘fel cacwn am bot jam’. Mae pot jam yn rhywbeth neis, yn llawn siwgr. Rydw i’n gallu dychmygu llawer o ferched o gwmpas bachgen am eu bod nhw’n ei ffansïo fo. Efallai fod y ferch yn genfigennus bod llawer o ferched o gwmpas y bachgen.

Does dim cyffelybiaeth yn ‘Y Ferch wrth y bar yng Nghlwb Ifor’, ond mae yna drosiad. Y trosiad ydy ‘roedd ’na gefnfor o stori.’ Mae cefnfor yn rhywbeth mawr, felly beth mae’r bardd yn ddweud ydy fod llawer gan y ferch yma i’w ddweud neu fod yna lawer o gefndir ganddi hi.

Cerdd rydd ydy cerdd Catrin Dafydd, ond mae cerdd Rhys Iorwerth yn englyn milwr felly yn gerdd gaeth.

Mae Rhys Iorwerth yn dawnsio efo’r ferch yn y diwedd. Mae hyn yn beth da achos rydyn ni’n gwybod faint mae o’n ei ffansïo hi ar ddechrau’r gerdd.

Mae’r ddwy gerdd yn sôn am rywbeth mae rhywun efallai wedi ei golli. Efallai fod Catrin Dafydd wedi colli ffrind neu gariad. Dydyn ni ddim yn siŵr pam dydy’r person ddim wedi dod nôl ati, ond rydyn ni’n cael y teimlad ei bod hi’n drist. Dydy Rhys Iorwerth ddim yn dweud ar y diwedd ydy o wedi dechrau perthynas gyda’r ferch.

**Barn Arholwr**

*Mae'r ymgeisydd hwn wedi llwyddo i grynhoi prif elfennau'r cerddi yn bwrpasol. Mae yma elfennau o gymharu wedi dod i mewn i'r gwaith, ac mae wedi cyfeirio'n addas at rai nodweddion arddull. Mae rhai ymatebion yn cynnig peth dyfnder, ond mae rhai enghreifftiau lle gellid bod wedi disgwyl mwy o drafodaeth ar effeithiolrwydd e.e. y mesur.*

**Cyrraedd y Copa**

Wrth droed y mynydd uchel
rwy'n codi fy llygaid draw,
ni welaf ac ni theimlaf
ond niwl a gwynt a glaw.

Rwy'n cychwyn ar y llwybr,
y llwybr sertha'n bod,
yn chwilio pen y mynydd,
ond nid yw byth yn dod.

Wedi oriau hir o ymdrech
mae'r niwl a'r glaw a'r gwynt
yn clirio, ac yn codi,
a cherddaf innau'n gynt,

nes cyrraedd pen y mynydd,
rwy'n gweld pob gorwel pell,
ac yma, ar y copa,
rwy'n dechrau teimlo'n well.

Dafydd Gwyn

*Geirfa:* *sertha' – mwyaf serth, yn codi'n uchel yn gyflym;*
*copa – pen, rhan uchaf y mynydd*

**Band Marciau 31 - 40**

Yn y ddwy gerdd yma, mae Dafydd Gwyn ac Aneirin Karadog yn gweld pethau'n well erbyn y diwedd. Mae'r ddau yn gweld pethau'n anodd i ddechrau, ac mae pethau cas yn digwydd iddyn nhw.

Mae Aneirin Karadog yn gweld fod bywyd yn ddiflas. Mae Aneirin Karadog yn sôn am 'sŵn traed' yn yr englyn cyntaf, ond dydy o ddim yn defnyddio ei draed. Mae Dafydd Gwyn yn defnyddio ei draed felly mynd ar daith go iawn mae Dafydd Gwyn a mynd ar daith i wella mae Aneirin Karadog.

Mae'r ddwy gerdd yn sôn am y 'gorwel'. Mae Aneirin Karadog yn sôn am y gorwel yn y teitl. Mae'r gorwel yn cynrychioli rhywle mae o eisiau bod. Efallai mai bod efo'i gariad mae o eisiau neu ei fod o eisiau gwella. Mae Dafydd Gwyn hefyd eisiau gweld y gorwel, ond mae'r 'niwl a'r gwynt a'r glaw' yn ei stopio rhag gweld yn iawn.

Mae ailadrodd yn digwydd yn y ddwy gerdd. Mae niwl a gwynt a glaw yn digwydd ddwywaith yn 'Cyrraedd y Copa', ond mewn trefn wahanol. Mae hyn yn dangos fod pethau'n anodd i'r un sy'n cerdded. Mae ailadrodd y gair '*rehab'* gan Aneirin Karadog yn dangos fod bywyd yn gallu bod yn anodd.

Rydw i'n meddwl fod cerdd Aneirin Karadog yn well achos mae o'n dweud rhywbeth mwy na dim ond cerdded. Mae o'n mynd ar daith bywyd, a dim ond ar daith arferol mae Dafydd Gwyn yn mynd.

Mae'r ddwy gerdd yn defnyddio synhwyrau. Mae Aneirin Karadog yn clywed sŵn ddwywaith yn y gerdd. Mae'r sŵn ar y dechrau yn ddiflas, ond mae'r sŵn ar y diwedd yn rhywbeth melys. Mae Dafydd Gwyn hefyd yn defnyddio synhwyrau. Mae o'n gallu gweld ar y diwedd fod pethau wedi gwella, ac mae'n o'n gweld o dop y mynydd.

Neges y ddwy gerdd ydy fod pethau yn mynd i wella, Efallai bod eich bywyd chi yn teimlo'n wael, neu efallai bod eich taith chi i'w weld yn hir. Ond yn y diwedd mae haul yn mynd i ddod a byddwch chi'n hapus.

Rydw i'n meddwl bod y ddwy gerdd yn dweud pethau pwysig i ni am fywyd. Dim ond i chi gario mlaen, gallwch chi fod yn cyrraedd lle rydych chi eisiau.

***Sylwadau Arholwr***

*Mae'r disgybl hwn yn cyrraedd y band marciau hwn gan ei fod wedi ymdrechu i gymharu'r cerddi gan ddefnyddio dyfyniadau pwrpasol. Mae'n cyfeirio at arddull yn ogystal â chynnwys, ac mae'n dangos dealltwriaeth o'r ddwy gerdd. Mae'n cynnig ymateb personol i'r cerddi, gan ddadansoddi beth yw neges y ddwy gerdd. Mae'n seilio ei sylwadau ar enghreifftiau penodol o'r cerddi.*

**Rhai ymadroddion defnyddiol ar gyfer trafod a chymharu cerddi:**

Yn y ddwy gerdd, yr hyn a wna'r beirdd yw...

Trwy gyfrwng y trosiad/gyffelybiaeth/rhestru..., cawn ddarlun o...

Bardd sy'n... yw...

Neges y gerdd hon yw...

Yn wahanol i'r gerdd gyntaf, mae'r ail gerdd yn...

Mae'r ailadrodd, ansoddeiriau, personoliad... yn effeithiol oherwydd...

Mae'r gerdd gyntaf yn ein hannog i..., serch hynny, yr hyn a wna'r ail gerdd yw...

**Rhestr o rai termau defnyddiol ar gyfer cymharu arddull:**

| | |
|---|---|
| Trosiad | Rhagenw |
| Personoliad | Defnydd o synhwyrau |
| Ailadrodd | Cytseinedd |
| Cwestiwn | Cynghanedd |
| Negydd | Cyffelybiaeth |
| Berf | Cyferbyniad |
| Ansoddair | Cymhariaeth |

**Gweithgareddau Cymharu**

1. Cyn cychwyn ar gymharu cerddi, gall y gweithgaredd agoriadol hwn ddysgu sylfeini cymharu i'r disgyblion. Gofyn i fachgen a merch ddod i flaen y dosbarth. Y disgyblion i gynnig tebygrwydd e.e. dau lygad, trwyn, disgybl ysgol, astudio'r un pwnc. Yna cynnig gwahaniaethau e.e. lliw gwallt, dillad, clustdlysau, hyd gwallt. Bydd angen ymarfer cynildeb yma!

2. Rhoi dau bennill o gerddi gwahanol er mwyn i'r disgyblion ysgrifennu un paragraff yn unig yn eu cymharu. Mae hyn yn annog y sgil o gymharu dwy gerdd o fewn yr un paragraff, yn hytrach na chyfeirio ar un gerdd gyfan, yna'r llall.

3. Rhoi dau bennill o gerddi gwahanol unwaith eto, ond y tro hwn cymell y disgyblion i ddod o hyd i un tebygrwydd ac un gwahaniaeth. Mae hyn yn annog cymharu cyflawn. Cymharu cyflawn yw gweld tebygrwydd a gwahaniaethau. Cymharu anghyflawn yw gweld tebygrwydd yn unig neu wahaniaeth yn unig.

4. Rhoi brawddeg neu linell olaf dwy gerdd i'r disgyblion, a'u hannog i geisio dod o hyd i neges y ddwy gerdd. Oes yna debygrwydd neu wahaniaethau? I wneud pethau'n haws, gellir bod yn rhoi ychydig mwy o'r llinellau.

## MESUR

Mae pob cerdd yn dilyn mesur arbennig. Mae beirdd yn dewis eu mesurau'n ofalus. Yn aml, mae mesur cerdd yn gallu cydfynd â'r hyn y mae bardd yn ei ddweud mewn cerdd.

### 'WALKERS' WOOD' 'TAI UNNOS' 'RHAID PEIDIO DAWNSIO YNG NGHAERDYDD' 'EIFIONYDD*' 'Y COED*'











**MYDR AC ODL**

Mewn cerdd sy'n dilyn y mesur mydr ac odr, mae yna batrwm pendant i'r llinellau. Yn aml, mae'r cerddi ar ffurf penillion, a'r un faint o linellau ymhob pennill. Mae yna rythm arbennig i'r llinellau, e.e. efallai fod wyth llinell mewn pennill, a phatrwm y curiadau o fewn pennill yn 4,3,4,3,4,3,4,3, fel yn 'Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd'. Mae nifer y sillafau'n gallu amrywio ychydig, ond mae patrwm y curiadau fel arfer yn aros yn debyg. Mae patrwm odli arbennig i'r llinellau hefyd.

### 'Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR'




**ENGLYN MILWR**

Mae cynghanedd ymhob un o'r 3 llinell, ac mae pob llinell yn 7 sillaf o hyd. Mae pob llinell yn odli, a gall yr odli fod yn gyfuniad o eiriau acennog neu ddiacen.

### 'GWELD Y GORWEL'



**ENGLYN PENFYR**

Pennill tair llinell yw englyn penfyr. Mae cynghanedd ymhob llinell, ac mae diwedd rhan gyntaf y llinell gyntaf yn odli gyda llinell 2 a 3. Mae cynghanedd yn rhan gyntaf llinell 1, a llinell 3, ac mae diwedd llinell 1 yn cynganeddu gyda dechrau llinell 2. Nifer y sillafau mewn llinellau englyn milwr yw 10,6,7

## ‘SBECTOL HUD’ ‘OFN*’





### SONED

Cerdd o 14 llinell yw soned. Mae 10 sillaf ymhob llinell, ac mae’n odli yn ôl y patrwm a,b,a,b,c,ch,c,ch,d,dd,d,dd,e,e. Fel arfer mae newid cyfeiriad yn yr ystyr rhwng yr wythawd cyntaf a’r chwechawd olaf.

## ‘ETIFEDDIAETH*’



### Y WERS RYDD GYNGANEDDOL

Mae cerdd yn y wers rydd yn golygu nad oes patrwm pendant o ran mydr ac odli i’r llinellau. Mae yna rythm o fewn y llinellau, ond nid yw’n dilyn patrwm. Yn y gerdd hon mae cynghanedd ymhob llinell.

**Mae’r nodiadau uchod er gwybodaeth yn unig. Wrth i’r ymgeiswyr drafod y mesur, disgwylir i’r goreuon fod yn gallu nodi sut mae’r mesur yn ychwanegu at y cerddi.**

- Cerddi ar gyfer yr haen uwch yn unig. Mae'r cerddi eraill a nodir ar gyfer y ddwy haen.

## AGWEDDAU ALLWEDDOL Y FANYLEB O 2015

| UNED 2: NOFEL- HAEN SYLFAENOL | |
|---|---|
| MAES ASTUDIO | DISGRIFIAD |
| **Gwerthfawrogi Cynnwys** | Nodi a gwerthfawrogi'r cynnwys a'r cymeriadau yn y nofelau gan gyfeirio at y testun a dyfynnu pan fo hynny'n briodol. |
| **Gwerthfawrogi Arddull** | Gwerthfawrogi'r arddull, y ffurf a'r iaith a ddefnyddir gan awduron i greu effaith, gan gyfeirio at dystiolaeth yn y testun fel y bo'n briodol |
| **Ymateb Personol a Chreadigol** | Ymateb ar lefel bersonol a chreadigol i'r nofelau. |

| UNED 2: NOFEL- HAEN UWCH | |
|---|---|
| MAES ASTUDIO | DISGRIFIAD |
| **Gwerthfawrogi Cynnwys** | Nodi a gwerthfawrogi'r cynnwys, y themâu a'r cymeriadau yn y nofelau gan gyfeirio at y testun a dyfynnu pan fo hynny'n briodol. |
| **Gwerthfawrogi Arddull** | Gwerthfawrogi'r arddull a'r iaith a ddefnyddir gan awduron i greu effaith, gan gyfeirio at dystiolaeth yn y testun fel y bo'n briodol. |
| **Ymateb Personol a Chreadigol** | Ymateb ar lefel bersonol a chreadigol i'r nofelau. |

## UNED 2: NOFEL- HAEN SYLFAENOL

## GWERTHFAWROGI CYNNWYS

Nodi a gwerthfawrogi'r cynnwys a'r cymeriadau yn y nofelau gan gyfeirio at y testun a dyfynnu pan fo hynny'n briodol.

### Cwestiwn enghreifftiol

Ysgrifennwch yn llawn beth sy' digwydd i'r criw yn ystod y noson olaf yn y gwersyll.

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd â phrif ddigwyddiadau'r nofel. Fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol o waith ymgeisydd - gall gyfeirio'n llawn at y digwyddiad a nodir yn y cwestiwn.

> *Yn ystod y noson olaf yn y gwersyll mae yna parti yn digwydd. Gwnaeth Gwenan gweld Gags gyda Donna, felly wnaeth Gwenan cisani Llion. Hefyd wnaeth Gwenan alw Llion yn Llion am y tro cyntaf yn lle Llinyn Trôns.*
>
> *Roedd Olwen a Gwenan gyda botel o Vodka ac wnaeth Llion yfed e gyda nhw. Roedd Gags a Nobi wedi bod yn cymryd cyffuriau yn y sied ble wnaethon nhw "cwato y stwff." Roedd Dei yn dawnsio. Wnaeth Donna dod lan i Llion a gofyn a nath e weld Gags ond dywedodd Llion fod e wedi mynd rhywle. Wnaeth Gags gweld Llion a Gwenan yn cisanu hefyd.*
>
> *Roedd pawb wedi meddwi ac o ganlyniad wnaethon nhw gwneud rhai dewisiadau gwael. Roedd Donna yn dymuno bod hi ddim wedi cisanu Gags. Roedd Nobi wedi mynd o gwmpas gyda merch â gwallt melyn a coesau pert. Roedd Nobi dim wedi gweld bod Gags wedi mynd rhywle ac roedd o ddim yn becso oherwydd bydd ei feddwl bod e just gyda Gwenan nid merch arall.*

Mae'r ymgeisydd hwn wedi llwyddo i grynhoi rhai o ddigwyddiadau'r noson olaf yn y gwersyll. Roedd y cynllun marcio'n nodi:

- Twmpath dawns a disgo wedi eu trefnu ar eu cyfer
- Llion yn dawnsio gyda Donna a Gwenan yn y twmpath
- Gags yn pwdu a gwrthod dawnsio gyda Gwenan
- Cyn y disgo Gags a Nobi yn mynd i chwilio am eu halcohol a'r cyffuriau
- Olwen a Gwenan yn meddwi
- Gwenan yn poeni bod Gags wedi bod yn ymddwyn yn rhyfedd - poeni am ganlyniadau TGAU efallai
- Gwenan yn dawnsio gyda Llion – y ddau yn cusanu
- Gwenan yn credu iddi weld Gags yn diflannu gyda merch arall
- Gwenan yn gweiddi ar Donna
- Tecs Pecs yn dawnsio gyda Donna

Llwyddodd i gyrraedd gwaelod y band marciau 8-10 – gan fod yma ddealltwriaeth dda o'r nofel. Byddai angen cyfeirio at fwy o ddigwyddiadau penodol o'r bennod wedi codi'r marc. Dylid hefyd nodi bod y cynllun marcio'n ystyried safon sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeiswyr wrth ateb y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn enghreifftiol

Sut gymeriad yw Chico? Pam rydych chi'n dweud hyn?

Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi eich sylwadau.

Nodwedd cymeriad a thystiolaeth o'r nofel

*Mae Chico yn cymeriad hyderus, mae'n barod i gwneud unrhywbeth i edrych ar ôl ei deulu sef Haul y Bore a Chiquito. Rydyn ni'n gwybod hyn oherwydd pan mae Quanah yn dweud wrtho fo am Dicks yn lladd Chiquito a threisio Haul y Bore, mae'n mynd i ffindio Dicks i drio lladd fo.*

*Mae'n dyn caredig, mae Haul y Bore yn meddwl bydd on grac oherwydd bod hi wedi colli eu mab Chiquito, ond mae'n hapus bod Haul y Bore yn byw ac eisiau iddi hi ddweud ei hanes am Chiqito a Dicks i cael gawred ar boen.*

*Mae'n ddyn hyderus oherwydd bod o'n dweud i Manuelito, Herrero Grande a Cochise "ni fydda i a Haul y Bore yn dod gyda chi." I sefyll lan i'r arweinydd yr Indiad yn beth hyderus i'w wneud.*

*Mae'n barod marw dros ei deulu ac mae'n marw ar diwedd y nofel wrth lladd Dicks gan dweud "Haul y Bore, Dicks."*

*Pan mae Haul y Bore yn gwrthod mynd gyda Chico i Mecsico oherwydd bod hi wedi addo edrych ar ol bobl ei thad, mae Chico yn dilyn hi a'r Indiaid ar y taith i'r Bosque ac wrth i Dicks ddod yn nes at Haul y Bore mae'n ei saethu fo, mae hyn yn dangos ei fod yn gymeriad sy'n edrych ar ôl ei wraig a'i ffrindiau.*

Rhestru nodweddion cymeriad a gwybodaeth dda am y nofel

## Gwerthfawrogi'r arddull, y ffurf a'r iaith a ddefnyddir gan awduron i greu effaith, gan gyfeirio at dystiolaeth yn y testun fel y bo'n briodol

Mae angen hyfforddi ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol i allu adnabod nodweddion arddull a thrafod eu heffeithiolrwydd.

"Roedd gwaed Dicks yn berwi."

*Mae'r nodwedd hon yn effeithiol am ei bod yn frawddeg fyr. Mae'n dangos bod Dicks yn grac iawn. Mae'n dangos ei fod yn berson drwg a chrac.* 2 farc

*"Mae hwn yn mynd i farw'n araf hogiau!"*

*Mae'r nodwedd arddull yma yn effeithiol oherwydd mae'n dangos bod Dicks yn berson cas a chreulon. Mae'n dangos ei fod yn fwli.* 2 farc

# YMATEB PERSONOL A CHREADIGOL

## Ymateb ar lefel bersonol a chreadigol i'r nofelau.

Wrth ateb y cwestiwn hwn - disgwylir i ymgeiswyr allu defnyddio empathi er mwyn uniaethu â chymeriadau'r nofel. Mae'r cwestiwn yn ffocysu ar ddigwyddiad penodol yn y nofel a disgwylir i'r ymgeiswyr edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r cymeriad yn y nofel - ond hefyd mae modd rhagfynegi rywfaint beth fydd yn digwydd i'r cymeriad yn syth wedi hyn yn stori'r nofel.

## Cwestiwn enghreifftiol

Dychmygwch mai chi yw Haul y Bore.

Ysgrifennwch **ddyddiadur Haul y Bore** yn ystod y daith i'r Bosque Redondo.

*Annwyl dyddiadur,*

*Mae'r taith i'r Bosque Redondo wedi cychwyn. Rhwyn methu credu bobeth sydd di digwydd yn y mis dwetha. Rwyn wedi cael mab. Rwyn wedi colli fy mab, rwyn dal cofio popeth amdano. Rwyn ysu i weld o bob dydd, ond dwi ddim yn gallu.*

*Rwyn wedi colli Chico hefyd ond wnes i addo i fy nhad i edrych ar ol y fenywod ar henoed. Mae rhaid i mi cadw fy "promise". Roeddwn i'n eisiau mynd gyda fo i Mecsico ond doeddwn i ddim yn gallu, teimlaf fel dwi wedi colli popeth, popeth oedd ganddo fi wedi diflannu.*

*Gwnes i arbed bywyd Quanah heddi. Rodd hi methu cerdded rhagor ac os oeddwn hi'n arafu bydd y Cotiau Glas wedi eu lladd hi fel mae nhw wedi lladd bawb arall oedd yn rhy araf. Ron i'n mor ofnus ond wnaeth un o'r milwyr dod lan ati hi gyda chwip a roedd on mynd i chwipio hi, roedd rhaid i fi stopio fo ac wnaeth i sefyll yng ganol Quanah ar chwip. On i'n teimlo mor prowd o fy hyn, wnes i arbed bywyd hi.*

*Ar ol imi neud hynny wnaeth Victor Dicks dod lan atai, on i mor ofnus, y tro olaf welais i fo, wnaeth o lladd fy baban bach a threisio i a wnes i brathu fo. Rwy'n gwybod bod o eisiau dial arnai am brathu fo. Roedd on mor agos atai ond mas o dim byd daeth saeth ac un arall ac wedin roedd un ar ol y llall. Gallodd i clywed Chico yn gweiddi "Geronimo" Ar ol i popeth sydd wedi digwydd wnaeth o arbed fy mywyd. Mae'n dal yn fy caru i*

*Roedd Dicks yn "coward" ac yn defnyddio y fenywod fel shield i beidio cael ei brifo, roedd o'n edrych yn ofnus, wnes i gwenu i dangos bod mae'r seathu'n mynd am fe a neb arall.*

***

*Heddi wnaeth ni gyd gwrthod symyd. On i'n teimlo mor cryf, oherwydd roedd pawb yn aros gyda'i gilydd, doedd neb di rhedeg bant. Wnaeth Herrero Grande sefyll o flaen Dicks a dwedodd fo bod ni'n mynd rhy gyflym a gall y henoed fynd yn y wagenau wag, ond doedd dim ots gan Dicks. On i mor ofnus wnaeth Dicks tynnu mas gwn. On i ddim eisiau weld Herrero Grande yn cael ei ladd. Roedd o'n siglo mewn ofn. Roedd Dicks yn mynd i dynnu'r trigger a death y saethau eto. Chico a Carson oedd wedi saethu Dicks. Roedd pawb mor falch nad oedd Herrero Grande wedi cael ei ladd. Does neb yn hoffi Dicks.*


Dyma ymgeisydd sydd wedi deall y nofel - gall grynhoi digwyddiadau rhan olaf y nofel y chyfleu teimladau Haul y Bore. Mae'n haeddu marciau'r band uchaf ond nid marciau llawn oherwydd ansawdd yr ysgrifennu sydd yn rhaid i'w ystyried.

UNED 2: NOFEL- HAEN UWCH

GWERTHFAWROGI CYNNWYS

Nodi a gwerthfawrogi'r cynnwys, y themâu a'r cymeriadau yn y nofelau gan gyfeirio at y testun a dyfynnu pan fo hynny'n briodol.

Wrth baratoi ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig dylid hyfforddi'r ymgeiswyr i drafod yr agweddau canlynol wrth addysgu'r testuau gosod:



### Y teitl
Bydd angen ystyried arwyddocâd y teitl gan drafod sut mae'r digwyddiadau'n cyfrannu at arwyddocâd y teitl a ddewisodd yr awdur.

### Lleoliad y nofel:

Cefndir hanesyddol - Y Stafell Ddirgel/I Ble'r Aeth Haul y Bore?

Cefn gwlad - Yn y Gwaed

Pentref/tref fach - Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

Dinas – O Ran

Cefn Gwlad - Dim

### Cymeriadau

Sut gymeriadau? – Dadansoddi cymeriadau/Creu portreadau

Beth yw barn y cymeriadau eraill amdanyn nhw?

Creu portreadau trwy lygaid cymeriadau eraill

Dyfynnu geiriau cymeriadau - beth mae hyn yn ei ddweud amdanyn nhw?

Arfer dda yw creu gêm i'r disgyblion ddyfalu pa gymeriad a ddisgrifir gan yr ansoddeiriau

### Y gwahaniaeth rhwng stori a phlot

Stori - trefn gronolegol y digwyddiadau

Cyfres o ddigwyddiadau gyda rhesymau a chanlyniadau

### Themâu

Beth yw'r prif themâu a gyflwynir yn y nofel?

**Gweithgareddau posibl:**

1. Creu tudalen ar gyfer gwefan fel *Facebook*, neu *Twitter* ar gyfer y cymeriadau yn cynnwys gwybodaeth allweddol.
2. Beth sy'n poeni rhai o gymeriadau'r nofel? Sut mae'r broblem yn cael ei datrys yn y nofel?
3. Beth yw'r gwrthrychau pwysicaf yn y nofel gan esbonio pam eu bod yn bwysig i'r stori.
4. Pa actorion enwog o fyd ffilm a theledu – hyd yn oed y tu hwnt i Gymru fyddech chi yn eu dewis i bortreadu gwahanol gymeriadau?
5. Creu map i ddangos lleoliadau'r nofel ac ysgrifennu paragraff i nodi arwyddocâd a phwysigrwydd y lleoliadau sydd wedi eu henwi ar y map.
6. Stori fwrdd yn dewis prif ddigwyddiadau'r nofel – tua 6 ar y mwyaf. Creu naratif a fyddai'n egluro'r stori i rywun sydd heb ddarllen y nofel.
7. Cwestiynau aml-ddewis, gwir neu gau am ddigwyddiadau/cymeriadau'r nofel.
8. Creu rhestr o'r prif gymeriadau yn y nofel. Nodi ffeithiau.
9. Dychmygu bod y cymeriad/cymeriadau yn gorfod ymddangos yn y llys ar ddiwedd y nofel. Pa gwestiynau fyddai bargyfreithiwr yn ei holi yn y llys? Creu'r ddeialog.
10. Creu cyfweliad gydag un o'r cymeriadau ar gyfer rhaglen deledu tebyg i *Heno* – tua 10 cwestiwn er mwyn i'r cymeriad gael cyfle i drafod teimladau yn ogystal â sôn am ddigwyddiadau.
11. Paratoi taflen wybodaeth am leoliadau'r nofel ar gyfer ymwelwyr.
12. Pwy ddywedodd beth? Dyfynnu union eiriau rhai o gymeriadau'r nofel – y disgyblion i ddyfalu pa gymeriad(au) ddywedodd y geiriau **neu** gyflwyno sylwadau a wnaed am y cymeriadau yn y nofel. Ai'r awdur neu'r cymeriadau yn y nofel sy'n gyfrifol amdanynt?
13. Adroddiad papur newydd yn crynhoi digwyddiadau'r nofel.
14. Llinell amser yn dangos holl brif ddigwyddiadau'r nofel.
15. Technegau dysgu cyflym gan ddefnyddio lluniau a geiriau er mwyn adolygu cynnwys y nofel.
16. Ysgrifennu dyddiadur, ymson deialog gwahanol gymeriadau ar adegau gwahanol yn ystod y nofel.
17. Creu diagram Venn am y cymeriadau, digwyddiadau a lleoliadau'r nofel.
18. Creu tabl a phenderfynu beth yw'r agweddau cadarnhaol a negyddol am y gwahanol gymeriadau yn y nofel.
19. Dewis 5 gwrthrych i gynrychioli stori'r nofel.
20. Rhannu tudalen yn fylchau i gynrychioli pob pennod – grwpiau yn darllen crynodeb o'r nofel ac yn crynhoi'r prif ddigwyddiadau ym mhob pennod.
21. Cyfleu coffâd i gymeriad sydd wedi marw erbyn diwedd y nofel – gan gofio bod yn onest!
22. Defynddio cloc i ddangos amseriad digwyddiad a phwysigrwydd y digwyddiad.
23. Crynhoi stori'r nofel i 25 gair.
24. Dewis rhan allweddol o nofel i ddangos bod newid agwedd yn digwydd i un o'r cymeriadau.
25. Ydy'r teitl yn addas ar gyfer stori'r nofel? Pam? Fyddech chi'n gallu awgrymu gwell teitl ar gyfer y nofel?

Cwestiwn enghreifftiol

| |
|---|
| Dewiswch yr olygfa bwysicaf o ran esbonio teitl y nofel.<br><br>i. Ysgrifennwch yn fanwl am yr olygfa hon.<br>ii. Pa mor addas yw'r teitl i gynnwys y nofel gyfan?<br><br>Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20] |

- Wrth baratoi i ateb y cwestiwn hwn, dylai ymgeiswyr gael eu hyfforddi i adnabod y geiriau a'r ymadroddion allweddol er mwyn ateb y cwestiwn.
- Rhaid hyfforddi ymgeiswyr i ddechrau gyda pharagraff agoriadol, cryf yn esbonio pam eu bod wedi dewis yr olygfa benodol gan gofio dyfynnu'n gywir ac yn bwrpasol o'r nofel.
- Cyn mynd ati i ateb y cwestiwn hwn, dylai ymgeiswyr gynllunio eu hateb gan ystyried pa olygfa yn y nofel sy'n esbonio teitl y nofel orau yn eu tyb nhw.
- Dylid rhoi sylw teilwng i ail ran y cwestiwn, sef pa mor addas yw'r teitl i gynnwys y nofel.
- Mae'n syniad da i baratoi taflen yn cynnwys nifer o ddyfyniadau addas ar y nofel er mwyn i'r ymgeiswyr baratoi ar gyfer dyfynnu yn y cwestiwn hwn.
- Mae angen hyfforddi ymgeiswyr i gyflwyno traethodau clir a threfnus a chymryd gofal gyda safon eu hiaith ysgrifenedig. Caiff yr rhain eu gwobrwyo gan yr arholwyr.

| | |
|---|---|
| **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**<br>• Richard Jones yn clywed sŵn y môr wrth gladdu'r gemau ar y dechrau<br>• Y môr yn ei dwyllo wrth iddo geisio dianc oddi wrth yr heddlu ar ddiwedd y nofel.<br>• Y môr yn gefndir i ddigwyddiadau pwysig eraill - e.e. carwriaeth Meredydd ac Einir / hanes marwolaeth tad Meredydd | **Yn y Gwaed**<br>• Tywyllwch perthynas losgachol Mam a brawd ei thad Dewyrth Ifan – Y Fo , Mared a Robin<br>• Perthynas losgachol Mared a Robin<br>• Mam yn gorfodi Robin i lofruddio'r plentyn a'i gladdu o dan y Garreg Wen |
| **I Ble'r Aeth Haul y Bore?**<br>• Haul y Bore yn diflannu ar ôl i Dicks ladd Chiquito a'i threisio hi ar ddechrau'r nofel.<br>• Haul y Bore'n marw ar ddiwedd y nofel ar ôl iddynt gael eu gorfodi i symud gan y Cotiau Glas o'r Ceunant i'r Bosque<br>• Geiriau olaf y nofel - arwyddocâd hyn | **Y Stafell Ddirgel**<br>• Y Crynwyr yn gorfod addoli yn y dirgel am eu bod yn torri'r gyfraith - Dolserau<br>• Y Stafell Ddirgel yw calon pob Crynwr – Duw yn siarad â nhw yn eu calonnau – geiriau Morgan Llwyd<br>• Cyfarfodydd dirgel – Jane Owen yn gwahodd Rowland Ellis<br>• Cyfarfodydd ym Mrynmawr |

| Dim | O Ran |
|---|---|
| <ul><li>Pobl yn ddim mewn cymhariaeth â mawredd y bydysawd.</li><li>Dim ydyn ni o dan drefn ddynol orchfygol, ymerodrol.</li><li>Er bod Owain yn gweithio i'r drefn ymerodrol, mewn gwirionedd cael ei ddefnyddio y mae ganddyn nhw ac yn cyfrif dim yn y pen draw – mae Owain yn sylweddoli hyn cyn y diwedd – person dibwys ydyw mewn byd mawr</li><li>Perygl i ardal ac i'r hen draddodiadau ac etifeddiaeth – e.e. cynlluniau Jeff Carrier – hyn yn feicrocosm o'r hyn all ddigwydd i genedl y Cymry – marwolaeth ardal / marwolaeth cenedl – colli hunaniaeth</li><li>Natur yn bŵer gorchfygol dros ddyn – golygfa Gwyn a Richard yn hel defaid ac yn gweld awyren filwrol yn y mynyddoedd. Er ei sŵn bygythiol mae grym milwrol yn ddiwerth ynghanol ehangder natur.</li></ul> | <ul><li>Daw'r teitl o linell o emyn Ann Griffiths "Er mai o ran yr wy'n ei adnabod." Nid oedd Ann Griffiths yn teimlo ei bod yn gallu adnabod Duw na Christ yn llawn yn y byd hwn.</li><li>Mae'r nofel yn cynnig sawl awgrym e.e. nad oedd Angharad yn adnabod ei theulu. Anti June oedd ei mam fiolegol ac nid yw'n dod i ddeall hyn tan ran olaf y nofel – er bod Anti June yn rhan fawr o'r fagwraeth yn sgîl marwolaeth ei Mam pan oedd Angharad yn ferch fach.</li><li>Mae'r nofel hefyd yn awgrymu nad oedd chwaith yn adnabod ei thad Ifan Gwyn e.e. cuddio ei alcoholiaeth oddi wrth Angharad. Mae e'n cael cyfnodau 'presennol' ac 'absennol'. Yn y cyfnod 'absennol' mae fel petai mewn byd arall.  Nid Ifan Gwyn oedd ei thad biolegol chwaith – felly o ran yn unig y mae Angharad wedi adnabod ei theulu.</li></ul> |

Dyma enghreifftiau o dasgau enghreifftiol a gyflawnwyd gan ymgeiswyr wrth ymateb i'r cynnwys.

*Yn bersonol credaf mai'r olygfa bwysicaf o ran esbonio'r  teitl yw'r un gyntaf oherwydd dyna lle cawn ein cyflwyno i chwithdod a lletchwithdod Arllechwedd. Yn yr olygfa yma mae Robin yn cael hunllef "Awyr goch, goch a'r coed a'r cerrig yn ddu, ddu." sydd am ei blentyn ef a'i chwaer Mared sydd wedi ei gladdu o dan y Garreg Wen yn y berllan. Gwelwn felly fod gwallgofrwydd y cymeriad yn ennyn chwilfrydedd y darllenydd oherwydd y freuddwyd sydd yn sôn am Robin fel llofrudd.*

*Rwy'n credu mai'r olygfa fwyaf pwysig i esbonio teitl y nofel yw'r olygfa olaf pan mae Mared a Robin yn marw gan ei bod yn dangos beth a ddaw drwy gael perthynas losgachol sef beth mae'r teitl Yn y Gwaed yn ei gynrychioli.*

*Dechreua'r olygfa hon gyda hunllef Robin. Mae digwyddiadau'r dydd yn amlwg yn yr hunllef gan fod dynion a'r dafarn ynddi. Mae Harri Llwyn Crwn yn cyhuddo Robin o fod yn "llofrudd babi bach" ac yn disgrifio sut roedd Robin wedi "mygu babi bach diniwed efo gobennydd". Nid yw Robin eisiau cael ei gwaethiwo fel Fo. Mae'r hunllef yma yn dangos euogrwydd Robin o ddigwyddiadau'r gorffennol ac mae Mared yn dweud yn gynharach yn y nofel fod Robin yn "corddi yn ei euogrwydd."*

Mae'r ddau ymgeisydd uchod wedi dechrau eu hatebion i'r cwestiwn gan gyfiawnhau eu dewis o olygfeydd, a chefnogi gan ddyfynnu'n bwrpasol ac effeithiol o'r nofel.

Mae'r ymgeiswyr wedyn yn mynd ymlaen i drafod ail ran y cwestiwn ac fel y gellir gweld o'r dyfyniadau canlynol, maent yn parhau i ddyfynnu'n rheolaidd gan arddangos gwybodaeth dreiddgar am y nofel osod.

*Yn gyffredinol mae teitl y nofel yn addas iawn gan ei bod yn cyfleu popeth am y nofel ac yn nodi beth yw craidd yr anawsterau ar y fferm – llosgach.*

*Roedd y fam wedi cael perthynas losgachol gyda Dewyrth Ifan ac o ganlyniad fe anwyd person ag anghenion – Fo. Mae Fo y cael triniaeth gwael yn y "llofft stabal" ac mae ganddo "dannedd melynfrown". Mae hefyd yn "brathu'n filain hyd at yr asgwrn" wrth ymosod ar Robin. Mae'r teitl felly yn effeithiol i gyfleu cymeriad Fo ac i gyfleu sut roedd perthynas y Fam a Dewyrth Ifan yn dabŵ cymdeithasol.*

*Hefyd mae'r teitl yn addas wrth ystyried casineb Robin tuag at y Saeson. Nid yw'n hapus fod pobl yn amharu ar gymuned yr ardal ac mae'r 'gwaed' yn cyfleu gwaed y pentref. Dywed " Pa hawl sydd gan ddiawliaid fel 'na ddŵad yma a newid cymaint o bethau." ac yn cyfeirio atyn nhw fel "blydi Saeson." Nid yw eisiau pobl megis Mr Davidson amharu ar waed y pentref.*

*Mae'r gwaed hefyd yn amlwg yn hunllefau Robin gyda'r "gwaed yn goch, goch." ac mae hyn yn addas er mwy cyfleu ei euogrwydd. Mae'r teitl yn symbol o euogrwydd Mam a Robin gan fod dwylo "Mam yn gochach" na rhai pawb sy'n cyfleu fod y ddau gymeriad yn euog o ddigwyddiadau'r gorffennol.*


*Mae'r lliw coch yn bwysig yn y nofel – sef lliw gwaed. Mae'r lliw'n dod i hunllefau Robin sawl tro ac mae'r tân, sef dinistr capel Gilgal yn cael ei gynrychioli gan y lliw coch – lle mae Robin yn gadael olion ei waed wedi iddo gael cwt ar ei law yn llosgi Capel Gilgal. Mae'r lliwiau yma i gyd yn symboliaeth o'r lliw coch a'r holl gyfrinachedd sydd yn perthyn i'r gwaed.*

*Mae Fo hefyd â gwallt coch ac felly mae'r lliw yn cael ei gynrychioli i'r tabŵ cymeithasol sef llosgach.*

*Yn fy marn i mae'r teitl yn hollol addas oherwydd mae'r eironi ei hun yn pwysleisio cyfrinchedd. Beth yn union sydd Yn Y Gwaed?*

GWERTHFAWROGI ARDDULL

Syniadau / Dulliau
Sut i werthfawrogi'r arddull, y ffurf a'r iaith a ddefnyddir gan awduron i greu effaith, gan gyfeirio at dystiolaeth yn y testun fel y bo'n briodol.




1. Sut mae'r awdur yn cyfleu tensiwn yn y darn?
2. Sut mae'r awdur yn creu awyrgylch yn y darn?
3. Sut fath o awyrgylch sydd yn y darn? Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch hwn?
4. Ydy'r awdur yn llwyddo yn y darn hwn i gyfleu cymeriadau?
5. Sut mae'r awdur yn cyfleu teimladau cryfion yn y darn?

**Mae pob un o'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi drin a thrafod :**


**Arddull ac Awyrgylch**



Darllenwch ddechrau Pennod 13

Tud 101 - 103

Adroddwr | Robin | Mared | Mam




# Chwiliwch am y trysorau!




| Nodwedd | Dyfyniad | Effaith |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Nawr darllenwch waith ymgeiswyr



**Ystyriwch :**

- Beth yw eu cryfderau?
- Beth yw eu gwendidau?

| | |
|---|---|
| 8-10 | • dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| 5-7 | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| 2-4 | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos peth dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |
| 0-1 | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith<br>• defynddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

## Cwestiwn enghreifftiol

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd.
Sut mae'r awdur yn cyfleu cymeriad Gladys Drofa Ganol yn yr olygfa hon?
Dylech ysgrifennu tuag un ochr.

- Cyn mynd ati i ateb y cwestiwn hwn, dylai ymgeiswyr ddarllen y darn a ddyfynnwyd yn ofalus gan edrych a yw'r awdur wedi dewis ffurf benodol ar gyfer y rhan honno o'r nofel.
- Dylent danlinellu/uwcholeuo nodweddion arddull amlwg sydd yn y dyfyniad a fyddai yn eu cynorthwyo i ateb y cwestiwn sef **sut** mae'r awdur yn cyfleu cymeriad yn yr olygfa.

Wedi darllen y dyfyniad gellir gweld:

- cyffelybiaeth "fel tân gwyllt" yn cyfleu natur wyllt ei phersonoliaeth
- rhestru cwestiynau – yn cyfleu ei chymeriad cwynfanllyd
- brawddegau byrion yn y ddeialog yn dangos ei diffyg amynedd.

Enwi, dyfynnu a thrafod effaith.

*Mae'r awdur yn defnyddio cymhariaeth i gyfleu cymeriad Gladys "daeth Gladys Davies i mewn fel tân gwyllt." Mae hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod mae Gladys wedi gwylltio ac yn flin.*

*Mae Gladys yn rhestru llawer o cwestiynau un ar ôl y llall "Be 'dach chi ' di bod? I be 'dach chi'n feddwl 'dach chi'n cael eich talu?" Mae hyn yn dangos does gan hi ddim mynedd.*

*Mae'r darllenwyr yn gallu gweld fod cymeriad Gladys yn ddramatig – "Ista? Rydych chi'n lwcus ar y naw 'mod i'n fyw" gan fod yr awdur wedi defnyddio brawddegau byrion.*

*Mae'r darllenwyr hefyd yn gallu gweld bod Gladys yn niwsans i'r heddwas ' "Deuai cwyn bron yn fisol." Mae hi eisio sylw oherwydd mae gŵr hi wedi marw.*

Llwyddodd yr ymgeisydd hwn i gyrraedd band marciau 5-7 – gan ei fod wedi gallu trafod addasrwydd arddull gan wneud sylwadau pwrpasol a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda.

*Mae awdur yn cyfleu cymeriad Dorcas fel un caredig iawn, ond yn ddewr ar yr un tro. Wrth i'r Cwnstabl a Shadrach ymweld a Bryn Mawr yn chwilio am Ellis, mae Dorcas yn cael ei bygwth ganddo. Er ei bod mewn perygl dwfn mae'n gweddio a'i holl enaid "I Ellis gadw draw." Mae hin gwneud hyn oherwydd gymainnt o feddwl o Ellis ganddi ac mae'n ofni y byddai yntau mewn perygl ond iddo ddychwelyd yn ol i Bryn Mawr.*

*Wrth i Shadrach edrych arni yn filaen a fygythiol, mae ei "nerfau fel tannau telyn wedi ei thiwnio yn rhy dynn." Serch hynny nid ydy hin ymateb yn nerfus yn gorfforol, mae hi'n cadw yn bwyllog. Credaf mae dyma'r ffordd y maer awdur yn cyfleu ei dewrder am iddi aros yn gwbl llonydd a wynebu y cwnstabl.*

*Wrth iddi symyd mae Shadrach yn ei galw yn "putain." Mae hi wedi dychryn yn arw o ganlyniad i hyn gan nad oes neb wedi ei galw hi yn y fath fudredd or blaen. Mae hyn yn dangos sut berson ydy hi gan ei bod yn cymeryd y fath enw i galon.*

*Mae Shadrach yna yn eu bygwth hi a rhoi ei glefydd am ei gwddf. Er iddo holi hi am y Crywnyr ond nid ydy hin ateb mae hi am fod yn "ddewr". Mae hyn yn profi hyd yn oed gyda clefyd wrth ei gwddf nid ydy hi am fradychu'r crynwyr, mae hin fodlon rhoi ei bywyd hi er mwyn sicrhau ei bod yn saff. Mae hyn yn dangos pam o'r ddewr ydyw.*

*Hefyd gwelwn ei bod yn addoli at ddûw wrth i Shadrach bygwth ei lladd. Mae hyn yn dangos ei bod hi'n berson crefyddol iawn "O Dduw gweddiai" syn profi ei bod hi'n meddwl mae duw sydd yn rheoli beth sydd am ddigwydd iddi. Mae hyn yn dangos ei bod hi'n berson crefyddol iawn.*

Llwyddodd yr ymgeisydd hwn i ennill un marc ar y papur wrth ateb y cwestiwn hwn. Er ei bod wedi llwyddo i allu dyfynnu un nodwedd arddull - yr hyn a geir yw dadansoddiad o gymeriad Dorcas yn y dyfyniad ar y papur arholiad. Er mwyn ennill llawer mwy o farciau, disgwylid i'r ymgeisydd fod wedi gallu cyfeirio at:

- y cwestiwn a'i harswyd o Shadrach yn ei galw'n 'hŵr'
- iaith foel ddiaddurn ei hymateb i Shadrach
- diffyg deialog yr olygfa yn portreadu ei hofn
- rhestru a brawddegau byrion yn cyfleu llif ei meddwl call

Brawddeg agoriadol yn cyfeirio at y cwestiwn

Mae’r awdur yn cyfleu cymeriad Robin yn y golgfeydd hyn. Mae’n defnyddio’r trosiad fod Robin yn teimlo “cwlwm o ddychryn yn ei stumog.” Mae’r trosiad yma yn cyfleu llawer am ei gymeriad gan ei bod yn dangos ei euogrwydd ar ôl llosgi Capel Gilgal. Mae’n cyfleu’r ffaith ei fod yn fyrbwyll gan ei fod ddim wedi meddwl am y sancsiynau cyn llosgi’r capel. Mae’r trosiad yn creu darlun o ofn Robin a sut dyw e ddim eisiau wynebu’r gwir. Mae’n cyfleu fod Robin yn dechrau sylweddoli beth mae wirioneddol wedi’i wneud.

Defnydd o derminoleg arddull gan ddyfynnu a thrafod effaith

Mae’r defnydd o ymson Robin yn dangos llawer am ei gymeriad. “Mi fyddet ti’n llofrudd.” Mae’n cyfleu’r hyn sydd yn pwyso ar ei feddwl a’r hyn sy’n gwneud iddo deimlo’n euog. Mae hefyd yn ffordd o gyfleu nad yw Robin yn rhannu ei deimladau gydag unrhyw un arall – nid yw’n fodlon mynegi’r hyn sydd ar ei feddwl i unrhyw un arall. Mae’r ymson yn cyfleu llais cydwybod Robin.

Ymdriniaeth o ddewis yr awdur o ffurf y darn

Yn ogystal mae’r ffaith fod Robin yn llithro y bollt yn “gyflym” yn cyfleu llawer am ei gymeriad. Mae’r ansoddair yma yn cyfleu sut mae Robin yn rhoi bwyd i Fo. Mae’n agor y drws yn “gyflym” am ddau reswm sef i osgoi cael anaf arall, ac i osgoi gorfod delio ag euogrwydd. Mae’n cyfleu’r ffaith fod gan Robin ddim berthynas da gyda Fo.

Enwi, dyfynnu a thrafod effaith yr ansoddair yn llawn a manwl.

Dyma enghraifft o ateb a fyddai wedi llwyddo i gyrraedd brig y bandiau marciau, gan ei fod yn llwyddo i drafod ffurf y dyfyniad gan drafod cymeriad Robin yn y dyfyniad. Mae’r ymgeisydd wedi dewis a dethol nodweddion sy’n cyfleu ei gymeriad cymhleth.

## YMATEB PERSONOL A CHREADIGOL

### Ymateb ar lefel bersonol a chreadigol i'r nofelau.

Wrth ateb y cwestiwn hwn - disgwylir i ymgeiswyr allu defnyddio empathi er mwyn uniaethu â chymeriadau'r nofel. Mae'r cwestiwn yn ffocysu ar ddigwyddiad penodol yn y nofel a disgwylir i'r ymgeiswyr edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r cymeriad yn y nofel. Mae modd hefyd rhagfynegi rhywfaint beth fydd yn digwydd i'r cymeriad yn syth wedi hyn yn stori'r nofel os yw'n berthnasol i'r dasg.

Cwestiwn enghreifftiol

> Ysgrifennwch ddyddiadur Mared ar ôl iddi ddweud wrth ei mam am ei beichiogrwydd.
> Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau yn y nofel.
> Dylech ysgrifennu tuag un ochr.

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr am wybodaeth o hanner cyntaf y nofel – a sôn am ddigwyddiadau fyddai wedi effeithio ar Mared cyn dechrau'r nofel.

Efelychu arddull Mared yn y dyddiaduron yn y nofel

Dyfynnu o ran o'r nofel

Gwybodaeth am y cymeriad cyn cychwyn y nofel.

> Dyddiadur bach, o'r diwedd dwi wedi'i wneud o. Mi ddudis i wrth mam – ac roedd ei ymateb hi yn hollol fel yr o'n i wedi disgwyl. Digon beirniadol ohona i, heb unrhyw euogrwydd ar ei hochr hi nag oes? Roedd hi'n sgrechian ar y cychwyn "Tri mis? Tri mis?" methu coelio'r peth. Ond mae hi wedi dod i delerau rwan. Mae yna bwysau enfawr wedi codi o fy ysgwyddau ar ôl deud wrthi. O leiaf mae yna rywun arall yn gwybod rwan, hyd yn oed os taw Mam yw honna – o leiaf na fydd y gyfrinach yna i fy mwyta i'n fyw.
>
> Wrth gwrs fe gawsom ni ffrae enfawr ar ôl i mi ddweud wrthi. Fe alwodd hi mi'n "butain" ac yn "hwran" ond does dim llawer all hi ddeud nag oes?
>
> Lwcus, nad oedd Robin o gwmpas y lle pan ddudis i wrthi. Mi fydda fo siwr o gredu taw Jeff yw'r tad. A'i ladd! Gan ei fod yn casau'r "Sais uffar". Ond dwi'n gwbod nid fo ydy o – mae o wedi cael vasectomi, wel dyna ddudodd o ta beth. Dwi yn teimlo'n euog cofia ddyddiadur bach – fe gawsom ni blentyn iach, a fyddai wedi tyfu i fyny fel fi a Robin. Allai byth â maddau i Mam am y gorffennol ac am farwolaeth y babi o dan y garreg wen. Allai fyth. "Peth arall ydy maddau." "Sut fedar hi fyw â'i heuogrwydd wn i ddim".
>
> "Beth os troith o allan fel Fo?" Dyna fy ofn fwyaf. Mae Mam yn amlwg eisiau i mi gael ei wared o – ond fedrai ddim. Fedrai ddim gwneud hynny eto.

Dengys yr ymgeisydd hwn wybodaeth fanwl am gefndir y cymeriad, ei theimladau yn y rhan benodol hon o'r nofel. Llwyddodd i fynd o dan groen cymeriad Mared a rhaid canmol ei harddull yn adlewyrchu arddull yr awdur yn y rhannau o'r nofel ble mae Mared yn mynegi ei theimladau yn y dyddiaduron. Mae'r ymgais hwn wedi ennill 10 marc llawn i'r ymgeisydd.

# Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

- Dihyder
- Cwynfanllyd
- Bywiog a llawn hwyl
- Hunanol
- Dialgar
- Unig
- Hoff o gyfiawnder
- Hoffi tynnu coes
- Busneslyd
- Twyllodrus

| | | |
|---|---|---|
| Meredydd | Gladys | Now |
| Richard Jones | Einir | Gareth Hughes |
| Huw Gwastad Hir | Harri Evans | |

# Y Stafell Ddirgel

- Penderfynol
- Hunanol
- Tyner
- Dawn i wella
- Cyfrwys
- Naïf a dibrofiad
- Cefnogol
- Pwysig a dylanwadol
- Yn barod i ddioddef

| | | |
|---|---|---|
| Rowland Ellis | Hywel Vaughan | Ellis Puw |
| Jane Owen | Meg | Huw Morris |
| Lisa | Dorcas | Marged Owen |

# Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Twyll | | | | | |
| Dirgelwch | | | | | |
| Unigrwydd | | | | | |
| Ansicrwydd | | | | | |
| Gwrthdaro | | | | | |
| Cymdeithas | | | | | |
| Hiwmor | | | | | |

# I Ble'r Aeth Haul y Bore?

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthdaro | | | | | |
| Dial | | | | | |
| Dioddefaint | | | | | |
| Ffyddlondeb | | | | | |
| Hiraeth | | | | | |
| Rhyfel | | | | | |
| Parch | | | | | |

# Y Stafell Ddirgel

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Twyll | | | | | |
| Gwrthdaro | | | | | |
| Maddeuant | | | | | |
| Rhagfarn | | | | | |
| Crefydd | | | | | |
| Teulu | | | | | |
| Serch | | | | | |

# O Ran

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnabod / Peidio adnabod | | | | | |
| Twyll | | | | | |
| Euogrwydd | | | | | |
| Celwydd | | | | | |
| Perthynas | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Dim

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Perthynas | | | | | |
| Glwadgarwch Cymreictod | | | | | |
| Cariad at fro | | | | | |
| Brwydr | | | | | |
| Cariad | | | | | |
| Bwlio | | | | | |
| | | | | | |

# Yn Y Gwaed

| Thema | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llosgach | | | | | |
| Gwrthdaro | | | | | |
| Euogrwydd | | | | | |
| Cyfrinachedd | | | | | |
| Gwallgofrwydd | | | | | |
| Perthynas | | | | | |
| Glwadgarwch Cymreictod | | | | | |

# Rowland Ellis

Y Stafell Ddirgel

# Rowland Ellis

- Mae'r geiriau cyntaf a ddefnyddir i sôn am Rowland Ellis yn ddiddorol *"...Rowland Ellis â golwg trwblus yn ei lygaid."* Onid rhyw olwg drwblus fydd ar Rowland fwy nag unwaith yn ystod y nofel hon? Mae'n amlwg o'r cychwyn cyntaf bod rhywbeth gwahanol ynglyn â'r gŵr hwn. Yn sicr nid yw'n debyg i Hywel Vaughan. Mae hyd yn oed yn ei ffieiddio ei hun am feddwl bod Nans y Goetre yn debyg i Meg. Mae'r cywilydd hwn yn arwydd o'r cariad a fodolai rhyngddo ef a Meg ar ddechrau'r nofel.
- Roedd yn gas ganddo greulondeb

  - nid oedd yn hoffi gweld boddi Betsan Prys a bu'r olygfa yn ei ddilyn am amser hir.


  - Nid oedd am i'w was newydd gael ei boeni'n ormodol *"Dyna ddigon ar blagio."*

# Rowland Ellis

- Person caredig iawn ydoedd.
  - Cynnig dysgu darllen  i Ellis Puw
  - Mynd i ymweld â Sinai Roberts ar ôl marw ei gŵr a rhoi bwyd iddi.
  - Cyflogi Lisa heb feddwl dwywaith am hynny er mwyn ysgafnhau'r baich i Sinai.
  - Pan fu farw Dorcas roedd am ohirio ei briodas â Marged o ran parch i Ellis Puw.
  - Bu'n dyner wrth Sian, merch y teiliwr, pan oedd fel pe bai wedi drysu tu allan i'r Eglwys.
- Cydwybod dyner iawn : dechrau cymryd diddordeb yn y Crynwyr "ond ddim am glywed rhagor" ym amlwg am ei fod am ei argyhoeddi (tud.20.)
  - yn ofni ei fod wedi cychwyn rhywbeth a fyddai'n fagl iddo (tud.21)
  - teimlo'n euog am i Meg fynd at Nans y Goetre (tud.83)
  - teimlo ei fod wedi methu gyda Lisa hefyd – yn ei holi ar ôl y ffair (tud.120)

# Rowland Ellis

- Mae ganddo hunan reolaeth e.e. pan ddywedodd Huw Morris wrtho bod Meg wedi bod yn dwyn oddi wrtho (tud. 110)
- Di-feddwl drwg e.e. yn nawns Hengwrt (tud.36) "Rhaid iddo chwilio am Meg. Beth petai hi'n sâl?" Dengys geiriau Huw Morris hyn hefyd "Da chi ddim yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen o dan eich trwyn."
- Mae'n caru ei fro yn angerddol ac yn ymwybodol o'i Gymreictod – ansicr am fudo i'r Amerig.


Nodwedd cymeriad
Tystiolaeth i gefnogi'r nodweddion

# Portread

______________________________

| Ansoddair | Tystiolaeth o'r Nofel | Barn Cymeriadau Eraill |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Stori Fwrdd yn Crynhoi Stori >>>>>>>>>

facebook Cartref Proffil Ffrindiau (1) Blwch Post Logio allan

Enw Defnyddiwr: Gosodwch eich statws yma :

5 munud yn ôl

Wal | Gwybodaeth | Lluniau | +

Beth sydd ar dy feddwl di?

Statws | Llun / Fideo | Digwyddiad Bywyd

Lluniau ohonof i : (34)


**Gwybodaeth**

Perthynas:

Lleoliad presennol:

Pen blwydd:

**Ffrindiau**




Dyma rai agweddau y dylid rhoi sylw iddyn nhw gan ganolfannau:

**Amseru**: 'Hyd at ugain munud' yw'r gofyniad ar y papur arholiad. Ni ddylid mynd lawer dros yr amser hwn, na chwaith gyflwyno grwpiau sy'n sylweddol fyrrach o ran amser. Os oes angen grŵp o ddau, yna gall yr amser hwn fod yn llai.

**Cwestiwn:** Anogir y disgyblion i ddarllen y cwestiwn yn ofalus, a chofio cyfyngu eu sylwadau gan gadw'r cwestiwn mewn cof. Ni roddir marciau i'r rhai sy'n trafod agweddau amherthnasol.

**Ymyrraeth:** Cymorth mewn cyfyng gyngor ddylai ymyrraeth athro/athrawes fod e.e. pan fo bwlch amlwg yn y drafodaeth/crwydro oddi ar y cwestiwn/ffeithiau anghywir/sicrhau amseru cywir.

**Nifer aelodau**: Tri ymgeisydd ddylai fod yn gweithio gyda'i gilydd yn ddelfrydol. Pan mae hyn yn amhosib o ran niferoedd mewn dosbarth, dylid ystyried bod pedwar yn rhif rhy uchel i fod mewn grŵp. Dylid rhoi dau grŵp o ddau yn lle un grŵp o bedwar.

**Ailadrodd Nodiadau:** Mae'n bwysig nad yw'r ymgeiswyr yn dysgu nodiadau air am air. Mae ymgeiswyr sy'n gwneud hyn yn cael trafferth cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu â'r hyn sy'n cael ei ofyn yn yr arholiad. Mae'n bwysig fod yr ymgeiswyr yn siarad mor rhwydd a naturiol â phosibl. Mae ffin denau rhwng dysgu gwaith air am air a gwybod eu gwaith yn drwyadl. Mae angen dysgu rhai pethau air am air wrth gwrs e.e. dyfyniadau cymeriadau, ond yn gyffredinol, cyfraniad naturiol at drafodaeth fyddai'n mynd â'r marciau uchaf.

## TERMAU LLUNYDDOL

| | |
|---|---|
| **ongl** | Ydy'r camera'n edrych i fyny neu'n edrych i lawr ar gymeriad neu le? |
| **cefndir** | Mae angen ystyried weithiau beth sydd y tu cefn i'r actorion neu'r digwyddiadau. Ydy'r cefndir yn ychwanegu at y saethiad yn weledol? |
| **saethiad/ siot agos** | Saethiad sy'n canolbwyntio ar ran bwysig o gymeriad neu wrthrych. |
| **saethiad/ siot bell** | Saethiad sy'n dangos ongl lydan, gan ddangos llawer ar yr un pryd. |
| **saethiad (siot) ganolig** | Saethiad fel arfer sy'n galluogi i'r gwyliwr weld ystum corff a wyneb person yr un pryd. |
| **tremio (panio)** | Mae'r camera'n symud o'r dde i'r chwith neu o'r chwith i'r dde. |
| **cledru (tracio)** | Mae'r camera wedi'i osod ar draciau er mwyn cyfleu symud neu roi golwg wahanol ar olygfa. |
| **ôl-fflach** | Mae'r cymeriad yn edrych yn ôl ac yn cofio'r gorffennol. |
| **golygfa** | Canolbwyntir ar un ran fach o'r stori. |
| **cyfosod golygfeydd** | Ceir dwy olygfa wedi'u gosod wrth ymyl ei gilydd er mwyn effaith. |

Wrth ddefnyddio'r termau hyn, dylid ceisio manylu ar eu harwyddocâd. Mae rhai ymgeiswyr ar yr Haen Sylfaenol yn bodloni ar nodi'r termau yn unig, ond i godi safon, dylid trafod y rheswm dros eu defnyddio, a'r ffordd y maent yn cyfrannu tuag at naws ac awyrgylch yr olygfa dan sylw.

## ENGHRAIFFT O SYLW TREIDDGAR YN MANYLU AR ARWYDDOCÂD TERM LLUNYDDIAETH

*Ydy'r camera'n edrych i fyny neu'n edrych i lawr ar gymeriad neu le?*

*Mae'r camera'n edrych i fyny ar dŷ'r gweinidog yn 'Y Mynydd Grug' gan awgrymu fod y gweinidog a'r teulu'n edrych i lawr ar bobl yn y gymdeithas. Mae'n awgrymu hefyd fod Begw'n edrych i fyny at y teulu hwn. Mae'r goleuo yn ychwanegu at* ***yr ongl*** *gan awgrymu nad edrych i fyny mewn parch y mae Begw, yn hytrach, mae'n edrych i fyny mewn ofn.*

## UNED 4: ASESIAD DIARHOLIAD- TASGAU YSGRIFENNEDIG

### Tasg 1: Straeon Byrion




**Pwyntiau i'w hystyried:**

- Dewis straeon fydd yn apelio at yr ymgeiswyr - ystyried darllenadwyedd a natur y symbyliadau
- Gwahaniaethu - er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyrraedd eu potensial
- Gosod cwestiwn fydd yn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y meini prawf
- Gosod canllawiau/creu ffrâm ysgrifennu
- Sicrhau bod y testunau'n ddigon heriol ar gyfer ystod gallu'r disgyblion ar yr haen uwch
- Gwau'r ymdriniaeth o AA2 yn naturiol i'r drafodaeth
- Trafod effeithiolrwydd y nodweddion arddull

**Gall athrawon ystyried y pwyntiau canlynol wrth baratoi disgyblion ar gyfer y dasg hon o dan reolaeth:**

- **Gosod cwestiwn** fydd yn cyfeirio'r ymgeiswyr i ateb meini prawf y cynllun marcio o ran
- cymeriadau, themâu ac arddull.
- Dylai ymgeiswyr gael eu paratoi i gynllunio paragraff agoriadol sy'n llwyddo i ddangos bod yr ymgeisydd wedi deall gofynion y cwestiwn.

**Crynhoi** - dylid hyfforddi'r disgyblion i grynhoi cynnwys y straeon yn eu geiriau eu hunain gan ddefnyddio tystiolaeth/ dyfyniadau o'r straeon i gefnogi eu sylwadau.

> *"Mae stori fer, fel dameg â neges, ond neges guddiedig, fel halen mewn cawl, ddim yn y golwg, ond yn rhoi blas arno. Mae straeon byrion yn gwneud i ni sylwi ar y pethau rydym ni yn eu hanwybyddu, ac yn pigo ar ein cydwybod bob tro. Mae'r awduron rydym wedi bod yn astudio eu gwaith yn ein gadael ni i deimlo'n euog ac yn codi cywilydd arnom."*

Mae rhai canolfannau yn hyfforddi ymgeiswyr y graddau uwch yn arbennig i strwythuro eu traethodau gan gyflwyno cyfanwaith clir, cryno a chydlynus yn hytrach nag aralleirio cynnwys y straeon unigol air am air yn llafurus.

**Arddull:** yr ymgeiswyr sy'n llwyddo orau i drafod nodweddion arddull yw'r rhai sy'n dadansoddi priodoldeb nifer helaeth o dechnegau arddull yn naturiol yng nghorff y traethawd.

Llwyddodd yr ymgeisydd hwn i wau'r ymdriniaeth o AA2 wrth drafod cynnwys y stori:

> *Rydym yn gwybod bod Robyn yn dew ac yn farus o'r frawddeg gyntaf. Mae Mihangel Morgan yn trosi ceg Robyn yn "ogof o geg" a'i fol yn "fynydd o fola". Cawn ddarlun o Robyn i fod yn ddyn diog tew wrth i'r awdur ddisgrifio Robyn yn gwthio "eclair anferth i ogof ei geg". Mae'r trosiadau yma yn gwneud i'w geg edrych fel twll anferth di- waelod.*

> *Yn y rhan yma o'r stori, gwelwn y car, sydd wedi cael ei drosi'n gath ar ddechrau'r stori yn troi yn llew ffyrnig. Ar y dechrau mae'r car yn "canu grwndi" ond erbyn y diwedd mae'r "injan yn rhuo'n uchel". Gyda chath sy'n canu gwrndi gallwch ei hanwesu, ond mae llew yn wyllt ac mae'r awdur yn pwysleisio hyn trwy ddefnyddio'r trosiad hwn.*

Rhaid i ymgeiswyr ochel y duedd i ddefnyddio brawddegau stoc wrth drafod arddull e.e. 'delweddau yn rhoi lliw i'r darn….', 'cymhariaeth yn rhoi llun yn y meddwl.' Mae'n hanfodol bod yr ymgeiswyr yn trafod nodweddion ac er mwyn cyrraedd graddau uwch rhaid iddynt fanylu ar nodweddion.

**Ffurf**: Mae'n bwysig hefyd rhoi sylw i'r ffurf a ddewiswyd gan yr awdur i ysgrifennu'r stori fer. Yn y dyfyniad hwn gwelir yr ymgeisydd yn trafod addasrwydd y ffurf:


> *Mae'r ffaith fod y stori "Dau Gyfandir" wedi'i hysgrifennu yn y person cyntaf yn gwneud gwahaniaeth. Ar ffurf ymson gwelwn bopeth o berspectif y mab ac felly teimlwn yn agosach at ddigwyddiadau'r stori ein hunain. Oherwydd y defnydd a wneir o'r person cyntaf, gallwn brofi taith gorfforol ac ysbrydol y mab ein hunain, ac felly llwyddwn i gydymdeimlo ag ef ar y diwedd.*

**Cymharu**: Mae'r meini prawf yn nodi y dylai disgyblion sydd ar frig yr ystod gallu gymharu'r testunau lle bo hynny'n briodol. Mae angen sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd â geirfa cymharu (Taflen). Mae'r ymgeisydd canlynol wedi llwyddo i gymharu dwy stori yn y gyfrol *20 Stori Fer* yn llwyddiannus:

> *Er nad oes obsesiwn amlwg yn y stori yma fel obsesiwn Robyn a'i fwyd ac obsesiwn Dafydd a'i gar, mae yma awgrym fod y berthynas rhwng y tad a'r mab wedi bod yn rhy agos efallai, gyda'r tad yn ceisio rheoli'r mab, yn byw ei fywyd iddo: "yn hytrach na gadael imi arbrofi a dysgu oddi wrth fy nghamgymeriadau, mynnodd reolaeth llwyr."*


Mae creu **paragraff clo** cadarn yn bwysig, er mwyn crynhoi'r traethawd a gweld sut mae'r storïau'n cyfleu'r thema:

> *Dywed Damien Walford Davies "Sylweddolodd fod cariad yn medru plesio ond hefyd mae'n medru melltithio." Gwelwn gariad wrth wraidd y perthnasau yn y storïau yma, ond mae'r cariad yn troi'n felltith yn y pendraw i nifer o'r cymeriadau, Wendy a mam Robyn, gwraig Dafydd, a'r tad a'r mab yn y drydedd stori. Mae'r tair stori'n gorffen yn negyddol iawn gyda'r prif berthynas yn arwain at ddirywiad y prif gymeriad. Mae Robyn yn colli ei ben yn llwyr, mae Dafydd yn colli ei fywyd ac mae'r mab ar goll mewn bywyd sydd bellach yn wag ac yn ddibwrpas. Er gwaethaf hyn, mae'r awduron wedi cylfwyno thema perthynas yn effeithiol iawn, ac oherwydd hyn, perthnasau y cymeriadau â'i gilydd sydd yn creu'r tyndra yn y storïau.*




## Geirfa Cymharu

- Gwelwn yn y stori …. bod … tra bod y stori …
- Yn y ddwy stori gwelwn…
- Gwelir tebygrwydd yn arddull y ddwy stori wrth i'r awduron …
- Y prif wahaniaeth rhwng y ddwy stori yw'r modd y mae'r prif gymeriadau yn…
- Gwahaniaeth arall rhyngddynt yw …
- Mae'r ddau awdur wedi dewis ffurfiau gwahanol er mwyn cyfleu…
- Mae'r ddau awdur wedi dewis ysgrifennu'r straeon ar ffurf ...




**Dewis Testun**

- Mae'n bwysig dewis drama i'w darllen neu ei gwylio fydd yn apelio at y disgyblion.
- **Gwahaniaethu** - mae gwahaniaethu drwy ddefnyddio dramâu amrywiol yn ôl gallu'r disgyblion yn bwysig fel bod yr ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu yn cyrraedd eu llawn botensial.
- **Crynhoi** – dylid crynhoi hanes a theimladau'r cymeriad/cymeriadau yn ystod y ddrama, gan hefyd ragfynegi beth fyddai hanes y cymeriad / cymeriadau ar ddiwedd y ddrama.
- **Geiriau Allweddol** - wrth ddarllen y ddrama, dylid casglu ymadroddion/dyfyniadau allweddol a ddefnyddir gan y cymeriad(au) yn ystod y ddrama.
- **Arddull** – dylid ceisio cynnal iaith ac arddull y ddrama wreiddiol wrth ysgrifennu'r gwaith.
- **Ffurf** – mae angen dewis ffurf addas gan sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gyfforddus yn ysgrifennu yn y ffurf hwn.

| Ymson | Dyddiadur | Llythyr | Deialog/Sgript |
|---|---|---|---|
| • Siarad yn y person cyntaf—fi sy'n siarad<br>• Sut mae'r cymeriad yn teimlo<br>• Cyfeirio at y gorffennol i drafod sefyllfa bresennol y cymeriad<br>• Edrych ymlaen at y dyfodol<br>• Iaith anffurfiol / tafodiaith | • Siarad yn y person cyntaf—fi sy'n siarad<br>• Nodi dyddiad ar ddechrau'r gwaith<br>• Cofnodi beth sydd wedi digwydd ar gyfnod penodol<br>• Sut mae'r cymeriad yn teimlo<br>• Edrych ymlaen at y dyfodol<br>• Gellir defnyddio iaith anffurfiol / tafodiaith | • Cyfeiriad a dyddiad ar y dechrau<br>• Cyfarchiad i ddechrau - Annwyl …<br>• Trefnu'r gwaith<br>• Rhoi hanes digwyddiadau yn y gorffennol<br>• Edrych ymlaen at y dyfodol<br>• Sôn am deimladau / ymateb i'r digwyddiadau yn y gorffennol<br>• Gellir defnyddio iaith anffurfiol / tafodiaith | • Gosod enwau ar ochr y ddalen<br>• Nid oes angen dyfynodau<br>• Defnyddio iaith y cymeriadau yn y ddrama<br>• Edrych 'nôl ar y gorffennol<br>• Edrych ymlaen at y dyfodol<br>• Gall fod gwrthdaro rhwng y cymeriadau<br>• Gellir defnyddio iaith anffurfiol / tafodiaith |

# TAFLEN GYNLLUNIO'R TRAETHAWD LLENYDDIAETH

| Enw: | |
|---|---|

Canolfan: 68

Thema i'w thrafod:

| **Stori 1** | **Ffurf:** |
|---|---|

| **Stori 2** | **Ffurf**: |
|---|---|

**Nodweddion Arddull**


**Nodweddion Arddull**

**Ffurf y Stori Fer**

**Tudalennau I'w Cofio**

**Dyfyniadau defnyddiol**

**Cymharu**



# Cariad a Chasineb

Trafodwch y modd mae'r thema *Cariad a Chasineb* yn datblygu yn y ddwy stori a ddarllenwyd gennych.


Cofiwch sôn am y modd maent yn defnyddio ffurf ac arddull i gyfleu'r thema hon i chi.

CYMERIAD/ DIGWYDDIAD → Cariad / Casineb → DYFYNIAD



Gwerthfawrogi Rhyddiaith
Dewis dwy stori addas
Gosod Cwestiwn
Dadansoddi a dehongli thema
Crynhoi
Dyfynnu
Arddull
Ffurf
Cymharu
Ffurf Traethawd

| TEBYG | GWAHANOL |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |


Ffurf y Stori Fer
Amrywiaeth o gymeriadau
Person cyntaf - ffurf ymsonol stori o safbwynt yr unigolyn sy'n siarad am ei brofiadau ei hun.
Y trydydd person - awdur yn gweld, clywed a gwybod popeth
Dechrau / Canol / Diwedd
Canolbwyntio ar un profiad / cyfnod
Tro yng nghynffon y stori
Agoriad Uniongyrchol

# Agoriad a Chlo

Paragraff  Agoriadol

- Crynhoi'r cwestiwn
- Enwi'r straeon a'u hawduron
- Dyfyniad yn ymwneud â'r thema?

"Y peth mwyaf a ddysgi di fyth yw sut i garu a chael dy garu yn ôl"

"Twyllwn ein hunain ddwywaith am y bobl a garwn — y tro cyntaf sydd fantais iddynt, yr eildro sy'n anfantais"

"Nid yw **casineb** yn dod a therfyn i gasineb, ond trwy gariad yn unig. Dyma'r rheol tragwyddol."

# Agoriad a Chlo

<u>Paragraff  Clo</u>

- Pa stori yw eich ffefryn? Pam?
- Pa stori sydd wedi cyfleu thema siom a dadrith orau?
- Cysylltu gyda'r dyfyniad yn y paragraff agoriadol?

# CYNLLUN ENGHREIFFTIOL TRAETHAWD 1

Cyfeiriwch at
y cwestiwn
drwy'r amser!

1. Paragraff agoriadol

2. Ffurf y straeon a'u cymharu

3. Cynnwys 'Stori 1 '+ dyfyniadau yn fras

4. Cynnwys 'Stori 2' + dyfyniadau yn fras

5. Cyfeirio at y Gariad a Chasineb yn 'Stori 1' gan sôn am y digwyddiadau,cymeriadau ac arddull. Pan welwch gyfle i gymharu gyda 'Stori 2', cymharwch!

7. Unrhyw beth ychwanegol am 'Stori 2'

8. Paragraff clo

# CYNLLUN ENGHREIFFTIOL TRAETHAWD 2

1. Paragraff agoriadol

2. Ffurf y straeon



3. Cynnwys 'Stori 1'+ dyfyniadau!

4. Cynnwys 'Stori 2' + dyfyniadau!

5. Arddull 'Stori 1' + dyfyniadau!

6. Arddull 'Stori 2' a dyfyniadau!

7. Cymharu'r ddwy stori

8. Paragraff clo